**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 26ain Hydref 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **PETER SLEE, (PRIF SWYDDOG CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU CORFFORAETHOL)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Ceisio barn yr aelodau ar y ffordd fwyaf priodol i nodi degfed penblwydd yr Awdurdod. |

1. **CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 1af Ebrill 1996 pan ddaeth Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 i rym.

1.2 Roedd y Gorchymyn yn darparu, wrth ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, i'r gwasanaethau tân oedd yn gwasanaethau hen siroedd Clwyd a Gwynedd gael eu huno, a bod y chwe awdurdod unedol newydd yng Ngogledd Cymru yn uno at ddiben darparu "gwasanaeth tân". Yr enw a fyddai ar yr Awdurdod i'w sefydlu dan y Gorchymyn fyddai "Awdurdod Tân Gogledd Cymru".

1.3 Er na ddaeth yr Awdurdod ei hun yn weithredol tan 1af Ebrill 1996, bu Cyd-Bwyllgor Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ac wedi hynny awdurdod cysgodol, yn cwrdd i wneud y gwaith cynllunio a dechreuol angenrheidiol, ac i oruchwylio troi dau awdurdod a gwasanaeth yn un, am fisoedd cyn hynny,

2. **GWYBODAETH**

2.1 Ebrill 2006 fydd degfed penblwydd sefydlu Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Cynhaliodd "Awdurdod Tân Gogledd Cymru" ei gyfarfod cyntaf ar 17eg Mehefin 1996 yng Nghonwy.

2.2 Roedd uno'r ddau wasanaeth yn golygu gwaith caled ar ran pawb er mwyn sicrhau newid o ddau arfer gweithio gwahanol yn un. Ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl, mae'r Awdurdod wedi gweld a derbyn nifer o newidiadau a heriau eraill ac mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Gwasanaeth wedi newid, esblygu a moderneiddio.

2. **GWYBODAETH** *(parhad)*

2.3 Wrth ddynesu at ddegfed penblwydd yr Awdurdod, efallai y byddai'r aelodau'n dymuno ystyried a ydynt yn dymuno nodi'r garreg filltir hon mewn rhyw ffordd arbennig. Efallai y byddai'r penblwydd yn adeg da i'r Awdurdod edrych ar hyn mae wedi ei gyflawni hyd yn hyn, ac i ailddatgan ei obeithion am y dyfodol.

2.4 Y dyddiad sydd wedi ei drefnu ar gyfer Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod yn 2006 yw 19eg Mehefin, ac mae'n cyd-fynd o fewn deuddydd â degfed penblwydd y cyfarfod cyntaf un. Felly, efallai y byddai'r Cyfarfod Blynyddol yn adeg da i nodi degfed penblwydd yr Awdurdod.

2.5 Un opsiwn posib ar gyfer nodi'r penblwydd fyddai cynnal cinio arbennig ar gyfer cyn-aelodau, cyn-brif swyddogion, yr aelodau presennol a'r Prif Swyddogion yn union wedi'r cyfarfod ar 19eg Mehefin 2006. Efallai, neu yn ogystal â, y byddai'r aelodau'n dymuno nodi'r achlysur trwy ddulliau eraill megis comisiynu rhodd i gofio.

3. **Y GOBLYGIADAU ARIANNOL**

3.1 Bydd nodi'r degfed penblwydd yn golygu goblygiadau ariannol i'r Awdurdod. Bydd maint y goblygiadau ar y gyllideb yn dibynnu ar sut mae'r aelodau'n penderfynu nodi'r achlysur.

4. **ARGYMHELLIAD**

Bod y Panel yn ystyried a yw'n dymuno:

4.1 i'r Awdurdod nodi degfed penblwydd ei sefydlu, ac os felly;

4.2 y ffordd mae'n dymuno nodi'r penblwydd.